

Crynodeb Gweithredol

Mae adroddiad Cyflwr Natur Gwent yn gofyn y cwestiwn 'beth ydyn ni'n wybod am fywyd gwyllt yng Ngwent?' Mae'r adroddiad yn casglu data ar gyfer 100 rhywogaeth neu grwpiau o rywogaethau ac yn dehongli'r hyn a ddengys y data. Drwy astudio poblogaethau a thueddiadau rhywogaethau, caiff newidiadau a bygythiadau yn yr ecosystemau ehangach sy'n eu cefnogi eu datgelu.

Cafodd y 100 rhywogaeth a grwpiau rhywogaeth eu dewis gan bartneriaid Gwent Gydnerth, Partneriaethau Natur Lleol ac arbenigwyr lleol, gyda ffocws ar rywogaethau oedd yn cynrychioli gwahanol gynefinoedd sydd ar gael ar draws Gwent, neu o ddiddordeb lleol neu gadwraeth. Casglwyd data o'r Ganolfan Cofnodion Lleol, yn neilltuoel Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc), cynlluniau cofnodi cenedlaethol a chofnodwyr a grwpiau cofnodi lleol. Defnyddiwyd y data hwn wedyn i gyflwyno mapiau yn dangos dosbarthiad, niferoedd ac oed cofnodion, a lle'n bosibl dueddiadau poblogaeth rhanbarthol.

Mae amrywiaeth enfawr mewn argaeledd data ac ansawdd rhwng rhywogaethau, o lond dwrn o gofnodion hanesyddol i filoedd o gofnodion a thueddiadau rhanbarthol dibynadwy. Ystyriwyd fod gan tua thraean y rhywogaethau neu grwpiau rhywogaeth ddata 'Da' – gan olygu y credid fod y data yn gynrychiolaeth gywir o statws rhanbarthol y rhywogaeth. Mae llawer o gyfyngiadau ar ddefnydd cofnodion biolegol, gan y gall fod tueddiad trwm ar gofnodion, a dim ond lleoliad rhywogaeth ar adeg neilltuoel a gofnodir.

Mae'r amrywiaeth rhywogaethau yn cynnwys rhywogaethau sy'n cynyddu a hefyd yn gostwng – yr adferiad a gofnodwyd yn dda mewn dyfrgwn, er enghraifft, yn ogystal â'r gostyngiadau difrifol a ddangoswyd ar gyfer gwiberod a chornicyllod. Ar gyfer bron pob rhywogaeth arall, fodd bynnag, dengys y data y gellir gwneud llawer mwy – diogelu a rheoli lleoedd lle mae digonedd o rywogaeth, adfer cynefinoedd a chysylltedd ar gyfer rhywogaethau lle mae gostyngiad a chofnodi a monitro i lenwi'r bylchau yn y data.

Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i nifer o faterion mewn monitro a chofnodi rhywogaethau, ac mewn argaeledd data. Mae hyn yn cynnwys tueddiad cofnodi tuag at rai rhywogaethau a lleoliadau, amrywiaeth yng ngorchudd a chysondeb y cynllun cofnodi cenedlaethol, dyblygu data a datgysylltu data. Mae hefyd ddiffyg gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd cadwraeth blaenorol.

Gobeithir y defnyddir yr wybodaeth yn adroddiad Cyflwr Natur Gwent i gyfeirio cofnodi a monitro pellach, yn ogystal â bod yn sail i weithredu cadwraeth yn y dyfodol.